CYFARCHION Y NADOLIG A'R CALAN I'N DARLLENWYR OLL

# Y Papur Gwyrdd

Rhif 27 Rhagfyr 2011 / Ionawr 2012 PRIS: £1



## Y neges waelodol yw bodloni ar yr hyn sydd gennym

## - ANGHARAD TOMOS

### AROLYGON BARN:

## Mwyafrif mawr yn pryderu am y Ddaear

ISSN 1755-3504
12
9 771755 350009

► Angharad Penrhyn Jones — Rhaid gweithredu i ffrwyno Newid Hinsawdd ► Nathan Williams — Paratown ar gyfer Maes Gwyrdd Prifwyl y Fro ► Haf Elgar — Sut drechwyd y llosgydd gan bobl Merthyr ► Dathliad a rhybudd Rhys a Janet Daniel

YMGYRCH Y DDAEAR - NEWYDDION O BEDWAR BAN

Cefnogi'r Gymraeg
Investing in Welsh

# Y PAPUR GWYRDD

***Llais Cymraeg annibynnol i'r ymgyrch i fynnu parch i'r Ddaear***

Golygydd: Hywel Davies
Cyfeiriad: 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX
Ffôn: 01792 798162 Ebost: ypapurgwyrdd1@btinternet.com
Gwefan: www.ypapurgwyrdd.com
Hefyd ar Weplyfr / Facebook

Cyhoeddir yn ddeufisol ers Awst 2007 gan Hywel a'r Dr Charlotte Davies (cwmni Y Papur Gwyrdd Cyf.)

Argreffir Y Papur Gwyrdd yn ddigidol gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Parc Busnes Mynachlog Nedd, Castell-nedd SA10 7DR.


**RHYFEDD** o beth yw bod argyfwng y marchnadoedd ariannol wedi bod yn cael cymaint o sylw ar y cyfryngau, ac argyfwng y Ddaear cyn lleied. Byddai rhywun yn credu nad yw'r byd naturiol sy'n ein cynnal — ac sy'n cael ei ddinistrio — yn cymharu â phwysigrwydd cyflogau penaethiaid y banciau ac elw'r hapfasnachwyr. Da bod protestwyr Wall Street a St Paul's wedi mynnu bod angen ail-ystyriaeth ddifrifol ar flaenoriaethau'r drefn gyfalafol er lles y mwyafrif llethol o bobl gyffredin. Achos pryder yw bod y lleiafrif bychan sydd â grym ariannol bellach yn meddiannu gwledydd democrataidd, hefyd, dan yr enw *'technocrat'* (Goldman, OK! tudalen 6). O ie — Nadolig Llawen a 2012 Hapus!

*LLUN Y CLAWR: LLYN LLIW*

# CYNNWYS


**3** NEWYDDION
Trydan dŵr o'r pyllau glo?

**4** GOLYGYDDOL
**Hywel Davies** — Mwyafrif mawr yn poeni am y Ddaear ...
Paneli haul — yn hwyr y dydd

**5** NEWID BYD
**Angharad Tomos** — Newid barn wrth lunio llyfr 'gwyrdd'

**6** **Nathan Williams** — Gwahoddiad i greu Maes Gwyrdd Prifwyl 2012
**Ennill a Cholli**
Ymgyrch y Ddaear











**7** 'MANIFFESTO GWYRDD'
**Angharad Penrhyn Jones** — Pwnc mwya'r ganrif yn galw am weithredu

**8** CELFYDDYDAU
**Ieuan Rhys a Janet Daniel** — Dathliad a rhybudd llun a cherdd

**9** YMGYRCHU
**Haf Elgar** — Sut lwyddodd Merthyr Tudful i guro'r llosgydd

**10** **Daear-iadur**
Hwyl yr Ŵyl (a mwy) ledled Cymru ...
Awel Aman Tawe yn galw'r beirdd

**11** **Y byd a'r aelwyd**
Colli'r afalau ond croesawu'r cwrw


*MATRESI ORGANIG ABACA, tudalen 12*

## LLONG NEWYDD GREENPEACE

CROESO i long ymgyrchu newydd Greenpeace — *Rainbow Warrior III*. Wedi'i hadeiladu'n arbennig yn yr Almaen, dyma'r llong hwylio hyfryd yn Llundain. Mwy amdani yn y dyfodol.




Llun: Couchman/Greenpeace


## Y Papur Gwyrdd - yn eich siop leol neu drwy'r post

Mae'r **Papur Gwyrdd** ar werth gan lyfrwerthwyr da led-led Cymru. Ond os nad yw ar gael yn eich ardal chi, mae croeso i chi danysgrifio i'w dderbyn trwy'r post. Llanwch y ffurflen isod a'i danfon gyda'ch taliad atom:

ENW: ......................................................................

CYFEIRIAD: ..............................................................

.............................................. Côd Post.....................

Amgaeaf siec at '**Y Papur Gwyrdd**' am ....................

(Unigolion: £6 am 6 rhifyn. Croesewir cyfraniadau i gynorthwyo gyda chostau postio. Sefydliadau: £8.50).

Danfonwch y ffurflen hon gyda'ch siec at:
Y Papur Gwyrdd, 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX

EDRYCHWN YMLAEN AT EICH CROESAWU FEL TANYSGRIFIWR I'R PAPUR GWYRDD





MAE arddangosfa *Tarnished Earth* o luniau'r ffotograffydd Jiri Rezak, yn brawf ingol o ddinistr enfawr y cloddio am Dar Tywod ar fforestydd a llynnoedd Alberta, Canada. Gwelir uchod un o arweinwyr cenedl y Beaver Lake Cree sy'n ceisio atal yr ymosodiad ar eu cynefin. Bu'r lluniau yn Abertawe ym mis Hydref. Gall darllenwyr YPG gogledd Cymru ymweld â'r arddangosfa yn Lerpwl o Chwefror 1-22 yn oriel *Liverpool One*. Noddir gan Fanc y Co-operative.

## CYRRAEDD CROESFFORDD AR EIN TAITH I DORRI'R CARBON?

Efallai dim ond fi yw e, ond mae wir yn teimlo fel bod taith dorri carbon y byd ar groesffordd. Daw pob dydd â chybolfa ddryslyd o newyddion da a drwg, a does neb fel petai nhw'n siŵr i ble yr awn oddi yma. Ond ynghanol yr holl helynt ac ansicrwydd, mae 'na un peth sydd byth yn colli'i rym. Gweithredu. Yn syml, codi a gwneud rhywbeth — beth bynnag y medrwn — i dorri carbon a lledaenu'r gair adre', yn y gwaith neu'r ysgol, ac allan yn ein cymuned leol. ***Angela Bryant, prif weithredwr mudiad 10:10.***

## COLLI WANGARI



**BU farw Wangari Maathai, y wyddonydd o Kenya sefydlodd mudiad Greenbelt i hybu prosiectau plannu biliynau o goed ledled y Ddaear. Enillodd yr Athro Maathai Wobr Nobel yn 2004 am ei gwaith dros yr amgylchedd. Cyhoeddwn erthygl am un oedd yn arwres i'w gwlad a'r Ddaear yn rhifyn nesa'r Papur Gwyrdd.**

## Wrth gwrs! - medd pobl Cymru i fagiau siopa

ER honiadau y byddai pobl yn gwrthryfela, mae'r gwaharddiad ar roi bagiau siopa taflu-i-ffwrdd am ddim gan siopau wedi profi'n llwyddiant mawr yng Nghymru.

Hyd yn oed cyn gweithredu'r polisi gan Lywodraeth Cymru ar Hydref 1, dangosodd ymchwil gan Brifysgol Caerdydd fod 70% o bobl yn cefnogi'r symudiad gan nodi rhesymau amgylcheddol dros hynny.

Bellach, mae siopau'n nodi cwymp o 95% yn y bagiau plastig a phapur a roddir allan.

Dros nos, gwelwyd pobl yn troi nôl at gario bagiau siopa fel a wnaed yn hollol hapus cyn i benaethiaid y siopau mawr fynnu dechrau gwastraffu adnoddau'r blaned.

Aiff y 5c a godir ar fagiau taflu-i-ffwrdd i elusennau, ond dim ond 7% o'r cwmniau siopau sydd wedi cytuno rhoi'r elw i achosion amgylcheddol.

Cymru yw gwlad gyntaf y DG i atal y gwastraff bagiau — ond arloeswyd gan Weriniaeth Iwerddon yn 2002 ac mae Gwlad Belg, yr Eidal, Hong Kong a gwledydd eraill yn dilyn polisïau tebyg erbyn hyn.

### *YR ALMAEN YN DANGOS Y FFORDD I GYMRU*

# Creu ynni dŵr o'r pyllau glo

**TRA bod Cymru'n wynebu ehangu safleoedd glo brig, a pharhau i losgi glo i greu trydan, mae'r Almaen yn paratoi i gau eu pyllau glo a'u troi'n bwerdai trydan dŵr.**

Mae'r papur dyddiol ar-lein **Der Spiegel** yn esbonio (Medi 11) sut mae'r Almaen wedi ymateb i sefyllfa heriol iawn ynglŷn â'i chyflenwadau ynni—gan groesawu syniadau newydd.

Cafwyd penderfyniad ers tro gan Lywodraeth y wlad i ddod â'r cymorthdaliadau hael i'r diwydiant glo i ben sy'n golygu y bydd glofeydd y Ruhr a thiroedd y Saar yn cau erbyn 2018.

Ar ben hynny, wedi cyflafan pwerdy niwclear Fukushima yn Siapan, penderfynodd y Llywodraeth gau 8 o'u 17 atomfa ar unwaith.

Gan ymateb i argyfwng y Ddaear, penderfynwyd mynd ati i ehangu diwydiant ynni glan ac adnewyddol y wlad — gyda 35% o'u pŵer i ddod o wynt a haul erbyn 2020 a 90% erbyn 2050.

Ond, fel y dadleuir mor aml yng Nghymru, mae rhai dyddiau heb wynt, dyddiau heb haul, a rhai dyddiau heb y ddau (er bron byth ym mhob man) — gan beryglu'r cyflenwad ynni. Beth wedyn?

Ateb cwmnïau glo'r Almaen yw troi eu pyllau yn bwerdai hydro. Maent wrthi'n paratoi i gynhyrchu trydan pan mae'r angen yn codi trwy ollwng dŵr i lawr yr hen siafftiau glo dwfn i droi tyrbinau tanddaearol.

Wrth i'r gwynt chwythu, a'r haul dywynnu, defnyddir trydan rhad i godi'r dŵr o'r pyllau gwlyb i lynnoedd prydferth. Wrth i bŵer y gwynt a'r haul wanhau, dyma'r dŵr yn disgyn i dyrbinau'r hen lofeydd gan greu trydan i gymryd drosodd.

Dyna'r math o feddwl technolegol ddyfeisgar a chyfrifol sydd ar gael yn yr Almaen. Ac mae enghreifftiau tebyg i hyn yng Nghymru ers blynyddoedd ym Mhwerdy Hydro Dinorwig a mannau eraill.

Ond heddiw, yng Nghymru?



Rhoddwyd caniatâd i Miller Argent chwalu'r mynydd uwch Merthyr Tudful, i Hargreaves / Goe -tre Tŵr rwygo llethrau Hirwaun, ac efallai Argent eto ger Fochriw — er mwyn codi glo brwnt i'w losgi ym Mhwerdy Aberddawan.

*►Gofynnwn — pam na thrafodwyd troi hen Bwll y Tŵr yn bwerdy hydro fel sydd i ddigwydd yn yr Almaen? Ai am fod cloddio a llosgi glo yn ffordd haws i'r cwmniau mawr wneud elw? Digon da i Gymru?*

*Pam ddylai ein cymunedau ni ddioddef brynti a stŵr safleoedd glo brig fydd yn diflasu bywyd am flynyddoedd — gydag allyriadau $CO_2$ Aberddawan yn achosi cynhesu byd-eang ar ben hynny?*

*Mynnwn fod ein gwleidyddion yn sicrhau bod ynni yn gwasanaethu cymunedau — nid corfforaethau barus sydd heb na pharch i Gymru na'r Ddaear.*

**Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru wedi bod yn gwarchod yr amgylchedd a gwneud pethau'n well i bobl Cymru ers mwy na 25 mlynedd.**

**Mae grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear yn cyfarfod drwy Gymru gyfan. Cymerwch ran, a helpwch ni i wneud gwahaniaeth yn lleol ac yn fyd-eang.**

**www.cyddcymru.co.uk**

**02920 229 577**

Cyfeillion y Ddaear Cymru
Friends of the Earth Cymru

GOLYGYDDOL

HYWEL DAVIES



# Caredigion y Ddaear — nid lleiafrif bach ond mwyafrif mawr

**O'R holl glochdar yn nhudalennau llythyrau'r wasg ac ar y wê gan wrthwynebwyr ynni adnewyddol di-garbon ac amheuwyr newid hinsawdd, mae gwir beryg i rywun gael yr argraff eu bod mewn mwyafrif, hyd yn oed yn fwyafrif mawr.**

Y gwrthwyneb sy'n wir, ac mae hynny i'w weld o dalu sylw i astudiaethau cywir a gofalus ar farn pobl yn lle i honiadau ffwrdd-â-hi. Mae'n bwysig bod pawb ohonom sy'n garedigion y Ddaear yn sylweddoli hynny ac yn ymgyrchu'n gryfach i sicrhau bod gwleidyddion yn clywed ein lleisiau ni.

Edrychwn ar gasgliadau dau arolwg barn a wnaed ledled y DG gan y **Guardian/ICM Research**, y cyntaf yn Awst 2009, yr ail yn Ionawr 2011:



- Yn Ionawr 2011, roedd 83% yn credu bod newid hinsawdd yn fygythiad presennol (40%) neu y byddai'n fygythiad yn y dyfodol agos (43%) — roedd hyn i fyny 3% ers Awst 2009
- Dim ond 14% oedd yn dweud bod newid hinsawdd ddim yn fygythiad — roedd hyn, hefyd, i fyny 3% ers Awst 2009 sy'n dangos ychydig o begynnu rhwng y ddau safbwynt
- Roedd 68% yn credu bod newid hinsawdd yn cael ei achosi'n bennaf gan ddynoliaeth
- Roedd 27% yn credu bod pobl yn poeni mwy am newid hinsawdd oherwydd y tywydd anghyffredin o oer ym mis Rhagfyr diwethaf; dim ond 8% oedd yn credu bod pobl yn poeni llai

Roedd hyn oll yn gwrth-ddweud canlyniadau arolygon yn gynnar yn 2010 oedd yn awgrymu bod canran y bobl sy'n amau newid hinsawdd wedi codi o ganlyniad i fethiant Cynhadledd Copenhagen a'r adroddiadau negyddol am wyddoniaeth Prifysgol East Anglia — y *'ClimateGate'* bondigrybwyll, twyllodrus.

*'Er bod amheuwyr hinsawdd yn parhau'n bresenoldeb croch mewn rhai rhannau o'r ddadl newid hinsawdd, mae'r arolwg newydd yn dangos eu bod yn cynrychioli safbwynt ymylol,' meddai'r* ***Guardian*** (Ionawr 31, 2011).

O'r arolygon, gwelwn fod 70% o'r rhai sy'n credu nad yw newid hinsawdd yn fygythiad yn ddynion — gyda dwy ran o dair ohonynt dros 65 oed ac wedi pleidleisio dros y Blaid Geidwadol yn 2010.

Wrth droi at yr **Eurobarometer Poll** ym Mehefin 2011, o 27,000 o bobl mewn 27 gwlad, gwelwn y casgliadau hyn o farn y bobl:

- Enwir newid hinsawdd fel un o'r problemau mwyaf difrifol sy'n wynebu'r byd — yn ail ar ôl tlodi ond yn fwy difrifol na'r argyfwng ariannol. Yn ôl 20%, newid hinsawdd yw'r *broblem fwyaf difrifol*.
- Roedd y ganran sy'n dweud bod newid hinsawdd yn broblem ddifrifol wedi codi o 64% yn 2009 i 68% yn 2011
- Roedd 80% yn credu y byddai delio â newid hinsawdd yn gymorth i'r economi ac y byddai'n dod â swyddi newydd — roedd y ganran hon dan 67% yn 2009

Mae'r diwydiannau carbon, fel glo ac olew, yn defnyddio'u holl rym enfawr i warchod eu rhan o'r farchnad ynni difrodol. Mae'r wasg a'r cyfryngau i raddau helaeth wedi methu â chyflwyno'r ofnau gwyddonol ynghylch peryglon cynhesu byd-eang.

Serch hynny, mae hi'n ffaith bod mwyafrif sylweddol pobl gyffredin gwledydd Prydain ac Ewrop yn deall yn glir bod y Ddaear a'i thrigolion amrywiol yn wynebu argyfwng mawr. Cefnogwn wleidyddion, pleidiau gwleidyddol, sefydliadau cyhoeddus a mentrau busnes, sy'n ymateb i'r ofnau hynny trwy ddatblygu polisïau i geisio ffrwyno newid hinsawdd. A gwthiwn yn galed ar y rhai sydd ddim.

# Paneli haul — nid $CO_2$!

CROESAWN bob un o'r paneli haul sy'n dechrau britho cartrefi a busnesau'n gwlad. Edrychwn arnynt fel mynegiant o'r pryder sydd gan bobl ynghylch cynhesu byd-eang a'u hawydd i wneud rhywbeth ymarferol yn ei gylch, er y deallwn nad yw hyn yn wir ymhob achos.

Y nod a osodwyd i ni ers blynyddoedd gan wyddonwyr yw torri ar yr allyriadau $CO_2$ sy'n achosi'r cynhesu byd-eang sy'n achosi'r newid hinsawdd sy'n fygythiad cynyddol. Mae pob panel haul yn faner sy'n datgan – Rydym wedi troi ein trydan o garbon difrodol y glo, yr olew a'r nwy gan osod yr haul adnewyddol, glan, yn eu lle.

Da hynny. Ond rhaid i ni ddeall mai yn hwyr iawn, iawn, yn y dydd yr ydym yn dechrau callio.

Cadarnhawyd hynny mewn adroddiad gan yr Asiantaeth Ynni Rhyngwladol (yr IEA). Cyhuddir y corff hwnnw o ochri gyda thanwyddau carbon yn aml. Ond neges wahanol sydd ganddynt y tro hwn.

Dywed yr adroddiad mai allyriadau $CO_2$ byd-eang 2010 oedd yr uchaf a recordiwyd erioed. Wedi cwymp yn 2009 oherwydd yr argyfwng ariannol rhyngwladol, cafwyd codiad o 5% i 30.6 gigadunnell o garbon yn 2010 o gymharu â'r flwyddyn waethaf flaenorol, sef 2008.

Felly, fe ddylwn fod yn <u>tocio</u> ar y $CO_2$, ond mae'n <u>cynyddu'n</u> enfawr. Mae'r corfforaethau glo, olew a nwy wrth eu bodd; mae ganddynt eu twf a'u helw. Maent yn rhwygo'r Ddaear; maent yn tyllu.

Gwrandawn ar yr hyn sydd gan Dr Fatih Birol, Prif Economegydd yr IEA i'w ddweud ynghylch hyn: "Mae'r cynnydd arwyddocaol mewn allyriadau $CO_2$, a'r ffaith bod allyriadau'r dyfodol wedi'u clymu i mewn oherwydd buddsoddiadau seilwedd, yn golygu



ergyd difrifol i'n gobeithion i gyfyngu ar godiad y tymheredd global i ddim mwy na 2°C ... Mae ein hamcangyfrifon mwyaf diweddar yn alwad arall arnom i ddeffro."

Cytunodd y gwledydd ar godiad o 2°C fel y mwyaf sy'n dderbyniol os ydym i osgoi colli rheolaeth ar newid hinsawdd gyda'i holl ganlyniadau enbyd. Felly — codwn y paneli haul. Gwrthodwn y glo a'r nwy ffracio. A gafaelwn yn ein gwleidyddion a'u siglo!

# Rhyfela — d'wedwch y gwir!

YN ystod gemau Cwpan Rygbi'r Byd, roedd Adran Ryfela Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn gwasgu ar fechgyn a merched ifanc Cymru i ymuno â'r Lluoedd Arfog. Defnyddiwyd hysbyseb deledu hynod gostus i wneud hwyl am ben swyddi heddychlon tra'n rhamanteiddio profiad milwyr ar faes y gad.

Nid oedd un cyfeiriad at y ffaith y byddai'r bobl ifainc yn cael eu hyfforddi i achosi anafiadau a marwolaethau, nac at y posibilrwydd y byddent yn cael eu hanafu neu eu lladd yn eu tro. Nid oedd cyfeiriad, 'chwaith, at y tebygrwydd y byddai'r profiad o ymladd yn gadael creithiau seicolegol enbyd arnynt na fyddai'n cael eu trin yn ddigonol os o gwbl.

Roedd yr hysbyseb yn hynod dwyllodrus wrth guddio'r gwir gost i bobl ifainc o ddewis gyrfa gyda'r lluoedd arfog. Mae'n hysbys bod Llywodraeth San Steffan yn frwd dros filitariaeth, ond dyw hynny ddim yn eu gosod nhw y tu hwnt i'r rheolau sydd i fod i warchod safonau hysbysebu.

### FFAWD YN 'CAEL HWYL' WRTH I ANGHARAD TOMOS YSGRIFENNU LLYFR AR FYW'N 'WYRDD' ...

# 'Y neges waelodol yw bodloni ar yr hyn sydd gennym'

**MAE gen i frawddeg sy'n codi cywilydd arnaf yn fy nofel gyntaf *'Yma O Hyd'* (1984).**

Rydw i'n trafod pam dwi'n casáu Saeson rhyddfrydol, ac yn dweud hyn amdanynt, *'Hen bobl sy'n pryderu am forfilod a phlanhigion prin a beth bynnag arall sy'n amherthnasol.'*

Pump ar hugain oeddwn i ar y pryd, ar dân dros Gymru a'r Gymraeg, ac yn colli amynedd efo unrhyw un oedd yn ymgyrchu dros unrhyw beth arall. Hyd y gwelwn i, Saeson oedd y rhai oedd yn ymgyrchu dros heddwch, Cymru ddi-niwcliar, hawliau'r ddaear a gwledydd Canolbarth America.

Cafodd Ffawd dipyn o hwyl ar fy mhen wrth ddewis cymar oes i mi — dysgwr o Went oedd yn heddychwr gwyrdd, yn figan ac yn ymgyrchydd brwd dros Nicaragiwa.

Yn fy ngholofn wythnosol yn **Yr Herald Cymraeg**, rydw i wedi cyfeirio yn ddirmygus at fy ngŵr fel 'Y Dyn Fej'. Flwyddyn yn ôl, cefais gais gan Wasg Gwynedd i ysgrifennu llyfr 'Byw yn Wyrdd efo'r Dyn Fej'. Roedd hon yn dipyn o her.

Dim ond trio byw yn wyrdd ydw i. A rhyw drio digon gwangalon ydyw. Mae o braidd fel chwarae piano yn blentyn — hoffi'r syniad, ond ddim yn leicio'r practis. Yn hyn o beth, dydw i ddim gwahanol i 99% o bobl Cymru. A sgwennu'r llyfr ar gyfer y rhain wnes i.

## BYW'N SYMLACH


Is deitl y llyfr yw *Byw'n Hapus ar Lai*, ac mae hwn yn gasgliad y deuthum iddo wedi darllen nifer o lyfrau dros y ddegawd ddiweddar, a gweld ffilmiau megis *The Story of Stuff* a ddangoswyd gan Gwynedd Cynaladwy ym Mhenrhyndeudraeth flwyddyn neu ddwy yn ôl. Does gen i ddim diddordeb mewn sut mae cynhesu byd-eang yn digwydd, ac mae clywed am ôl troed carbon a nwyon tŷ gwydr yn rhoi'r felan i mi.

Yr hyn oedd yn ddiddorol i mi fodd bynnag, oedd y syniad o fyw yn syml, ac o gael gwared â lot o anialwch. Hoffwn y syniad o gael bywyd arafach a chael mwy o amser i mi fy hun, y ddadl barhaus am y *'work life balance'* bondigrybwyll.

Ond yn raddol, asiodd y ddau syniad, a deallais fod cymdeithas sydd yn mynnu fod pobl yn gwario, gwario, gwario yn y pen draw yn anochel yn arwain at daflu, taflu, taflu, a bod hyn yn gwneud difrod anhygoel i'r ddaear.

Yr hyn oedd yn gwneud i mi deimlo yn wirioneddol euog, oedd yr effaith a gai hyn ar bobl. Mae difrod i'r haen osôn yn syniad rhy amwys i mi, ond roedd gweld effaith newid hinsawdd ar bobl yn Bangladesh yn fwy nag y gallai rhywun rhyddfrydol fel fi hyd yn oed ei oddef.






***'Does gen i ddim diddordeb mewn sut mae cynhesu byd-eang yn digwydd, ac mae clywed am ôl troed carbon a nwyon tŷ gwydr yn rhoi'r felan i mi ... Dydw i ddim gwahanol i 99% o bobl Cymru. A sgwennu'r llyfr ar gyfer y rhain wnes i.'***

Angharad Tomos, awdur *Bodlon: Byw'n hapus ar lai* (Gwasg Gwynedd)

**Erthygl gan ANGHARAD TOMOS**

**Lluniau: Dewi Glyn Jones**
www.dewijones.co.uk

Ers 1984 hefyd, rhaid dweud fod yr ymgyrchoedd a soniais amdanynt ar y dechrau wedi Cymreigio yn arw, ac mae cael y deunydd hyrwyddo yn fy iaith fy hun yn naturiol yn fwy perthnasol.

Llyfr wnaeth argraff ddofn arnaf oedd *Y Byd yn eich Poced* gan Dr Gwenith Hughes o Minffordd. Cyhoeddwyd y llyfr poced hwylus hwn yn yr Eisteddfod yn 2008, ac mae gennyf gopi wedi ei arwyddo gan yr awdur. Hyd y gwn i, hwn yw'r unig lyfr o'i fath yn y Gymraeg, ac rydw i wedi dibynnu yn drwm arno wrth ysgrifennu fy nghyfrol i.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae mwy nag un ferch ifanc wedi fy ysbrydoli yn ogystal â Gwenith. Sara Ashton yw un ohonynt, sydd wedi gweithio mor galed gyda phrosiect Tref Werdd Blaenau Ffestiniog. Angharad Penrhyn Jones yw un arall, sydd yn gweithio yn ddiflino dros yr amgylchedd yng nghylch Machynlleth.

## DYLANWAD

Mae gweld yr eneidiau brwd hyn yn fy heintio â brwdfrydedd, ac yn raddol mae'r cyfan – ynghyd â chyhoeddiadau megis ***Y Papur Gwyrdd*** – yn treiddio i'm penglog penstiff, fesul diferyn bach ar y tro.

Siarad o brofiad personol a wnaf yn y gyfrol. Mae'r Dyn Fej yn gwbl anweledig, ond mae ei ddylanwad i'w weld ar bob tudalen. Mae'r penodau yn trafod bwyta'n lleol, peidio gyrru a hedfan gormod, byw yn ddarbodus, prynu llai, defnyddio llai o drydan,

PARHAD, TUD 7

# Gwahoddiad i fentro gyda Maes Gwyrdd Eisteddfod y Fro, 2012

**AETH rhai misoedd heibio ers i griw o ecolegwyr, artistiaid, cerddorion a threfnwyr gwirfoddol ddod at ei gilydd i greu cynllun 'Maes Gwyrdd', 2-3 erw, ar faes y brifwyl yn Llandŵ, Bro Morgannwg, yn 2012.**

Wedi croeso brwdfrydig gan reolwyr yr Eisteddfod i'r cynllun, bu rhai ohonom yn ffodus i gael crwydro Eisteddfod Wrecsam i hel syniadau.

Mae nifer o brif gymdeithasau a chyrff amgylcheddol Cymru yn dod i'r brifwyl bob blwyddyn. Ein her ydyw canfod cynnwys newydd a denu mwy o bobl at yr ŵyl, yn enwedig crefftwyr bach a stondinau cymunedol na fuasai wedi gallu fforddio bod yno hyd yn hyn; hefyd chwedleuwyr, cerddorion gwerin / acwstig, a mwy.

Bwriad ein hardal ni o'r Eisteddfod yw bod mor ryngweithiol â phosib, ac i bobl gael hwyl mewn gweithgareddau difyr a chreadigol. Gwahoddwn bob math o grefftwyr brwdfrydig i gysylltu â ni, yn ogystal â iachawyr Cymraeg-euhiaith i'r 'Hafan Iachau', a darlithwyr difyr i'r '*ecoleg*', sef pafiliwn newydd ar gyfer materion ecolegol.



**Adroddiad gan NATHAN WILLIAMS Trefnydd**

Roeddem wedi cwrdd â darlithwyr posibl ymhob cwr o'r Maes yn Wrecsam — e.e., yr archeolegwyr sydd wedi darganfod pair o'r oes efydd yn Llanfaes, ger Llandŵ, neu'r gwyddonwyr yn y Babell Wyddoniaeth sy'n datblygu car bach solar.

Bwriad yr ecoleg fydd cynnwys pob math o wybodaeth 'werdd' ddifyr — o'r hanesyddol a'r cynhanesyddol hyd at faterion cyfoes cyffrous, megis technoleg amgen, prosiectau permaddiwylliant a mentrau cymunedol ecolegol — ac i gynnal cynadleddau bach anffurfiol ar ddyfodol y genedl a'r perthynas gyda'r amgylchedd.

Mae mudiad Maes Gwyrdd, a sefydlwyd eleni yng Nghanolfan Coed Hills, Bro Morgannwg, wrthi'n creu partneriaeth weithredol hefo CAT ym Machynlleth, hefo TRAC, y gymdeithas werin Gymraeg, ac rydym wedi cael cymorth gan Gyngor y Celfyddydau.

Dechreuswn ar hel noddwyr ac arianwyr. Codwyd rhai miloedd o bunnoedd yn barod, ond croesewir pob cyngor a chymorth! Crëwyd pwyllgor swyddogol, a chyfansoddiad fel mudiad cymunedol 'di-elw', a bydd gwefan, www.maesg.org.uk cyn hir.

Hoffwn annog pob siaradwr Cymraeg sydd â diddordeb yn y fenter i gysylltu â ni er mwyn creu ardal newydd o'r Eisteddfod fydd yn parhau am flynyddoedd i ddod.

Mae'r criw yn ddigon agored i syniadau a chyngor doeth! Yng ngeiriau Iolo Morgannwg yn rhaglen Eisteddfod Wrecsam: *"Er maint budredd llygredd llwyr / Yma soniant am synnwyr".* ■

**► Cysylltwch trwy e-bostio nathan@maesg.org.uk neu ffonio 02921 252319 / 07551 498910. Hefyd ar gael ar Facebook: *Maes Gwyrdd 2012*.**




## DIWEDD Y BIBELL?

MAE'R Arlywydd Barak Obama wedi gwrthod cynllun pibell i gario olew o dywod tar Alberta i Gwlff Mecsico gan ddweud y bydd yn ail-asesu'r cais yn 2013. Croesawyd y newyddion gan fudiadau amgylcheddol Americanaidd sydd wedi bod yn protestio'n gryf yn erbyn y cynllun, gyda channoedd ohonynt yn cael eu harestio (**Y Papur Gwyrdd**, Hydref / Tachwedd 2011). Ond mae rhai'n ofni mai dim ond gohirio'r penderfyniad, a distewi'r protestiadau, tan ar ôl yr etholiad Arlywyddol nesaf y mae Mr Obama.

## GOLDMAN, OK!

DATGELODD **Le Monde** (Tachwedd 14) berthynas agos y tri arweinydd 'technocrat' newydd Ewropeaidd gyda banc buddsoddi Goldman Sachs. Bu Mario Draghi, llywydd Banc Canolog Ewrop, yn is-lywydd Goldman Sachs Ewrop o 2002 i 2005. Bu prif weinidog Gwlad Groeg, Lucas Papademos, yn gyn-lywydd Banc Canolog y wlad wrth i Goldman Sachs ffugio mantolen ariannol Groeg er gwell yn 2002 (a guddiwyd hyd 2010). Bu Mario Monti, prif weinidog yr Eidal, yn ymgynghorydd ariannol i Goldman hyd yn ddiweddar. Penaethiaid y drefn ariannol i ddatrys yr anrhefn ariannol? Ar draul pwy? Er elw pwy?

## APÊL GWLEDYDD

MAE 14 o'r gwledydd sydd fwyaf dan fygythiad newid hinsawdd wedi galw am weithredu ar frys gan y gymuned ryngwladol i leihau cynhesu byd-eang. Yn Natganiad Dhaka, maent yn mynnu bod gwledydd y byd sy'n cwrdd yng Nghynhadledd Hinsawdd Durban, rhwng Tachwedd 28 a Rhagfyr 9, yn ymrwymo'n gyfreithiol i dorri ar allyriadau carbon a gosod pwyslais newydd ar ddatblygiadau carbon isel.

## ATAL Y FFRACIO

GWRTHODODD Cyngor Sir Bro Morgannwg ganiatâd i gwmni Awstralaidd / Cymreig ddechrau tyllu i godi nwy trwy broses ffrwydrol danddaearol o'r enw 'ffracio.' Dangosodd wyddonwyr mai ffracio oedd yn gyfrifol am ddaeargrynfeydd yn ardal Blackpool yn gynt eleni . Datgelwyd bod tyllu arbrofol eisoes yn digwydd ym Maesteg gyda chaniatâd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr. Galwyd ar Lywodraeth Cymru i dynhau'r rheolau i atal ffracio am resymau diogelwch ac amgylcheddol.

## GWERTHU WRANIWM

CYHOEDDODD Prif Weinidog Awstralia, Julia Gillard, ei bod yn anelu at godi'r gwaharddiad ar werthu wraniwm i India. Hyd yn hyn, bu gwaharddiad ar werthu'r tanwydd atomfeydd i India gan nad yw'r wlad honno wedi llofnodi'r cytundeb rhyngwladol sy'n ceisio cyfyngu ar faint o wledydd sydd ag arfau niwclear. Dywedir mai'r Unol Daleithiau sydd wedi pwyso ar Awstralia i ddod â'r gwaharddiad i ben. Bu'r Arlywydd Obama'n ymweld â'r wlad yn ddiweddar.

## YNNI GLÂN WWF

MEWN adroddiad newydd, mae WWF Cymru wedi dangos bod modd sicrhau toriadau llym mewn allyriadau carbon a sicrhau cyflenwadau ynni heb ddefnyddio pwerdai niwclear. Dywedir y byddai dulliau adnewyddol o gynhyrchu trydan yn gallu cyflenwi rhwng 60-90% o anghenion y DG erbyn 2030. Meddai pennaeth WWF Cymru, Anna Meikle, "Os gafaelwn yn y cyfle hwn, gallwn gael chwildroad diwydiannol glan fydd yn dod a channoedd o filoedd o swyddi newydd i'r DG." Ond mynnodd fod angen targedi clir gan Lywodraeth Cymru a phrosesau cynllunio cyflymach.

## MANIFFESTO GWYRDD ANGHARAD PENRHYN

# Pwnc mwya'r ganrif yn galw arnom i weithredu, nid dim ond tyfu tomatos

**MAE bod yn 'wyrdd' yn ffordd o feddwl, nid jest yn ffordd o fyw. Mae'n ffordd o weld y byd, ac o weld ein lle yn y byd.**

Mae amgylcheddwyr yn cydnabod fod dynoliaeth yn rhan o'r system ecolegol: dydan ni ddim ar wahan iddo, nac yn uwchraddol iddo.

Yn syml iawn, rydan ni'n rhan o'r amgylchedd ac mae'r amgylchedd yn rhan ohonan ni. A fedrwn ni ddim goroesi ar y blaned yma os ydy prosesau naturiol y ddaear yn mynd ar chwâl. Dŵr, aer, cnydau, pren — sut y gallen ni fyw hebddynt?

Mae'r cysyniad yma yn fygythiol i'r rhai sy'n cymryd agwedd drefedigaethol tuag at fyd natur. Ond mewn gwirionedd rydan ni'n rhwym i we anferth a chymhleth. Ac o ganlyniad i'n gweithredoedd dinistriol, mae'r we wedi dechrau datgymalu, a phobl eisoes yn dioddef ym mhedwar ban byd.

Pan mae rhywun yn gweld y pictiwr yn glir, mae'r syniad o ychwanegu at y dinistr yn mynd yn wrthun, a hynny ar lefel gwbl reddfol.

- Dydy taflu poteli gwydr yn y bin sbwriel, a bwyta afalau o Argentina, ddim yn teimlo'n dderbyniol i mi bellach.
- Dydy hedfan i Efrog Newydd am benwythnos ddim yn apelio.
- Dydy hyrddio i lawr traffordd mewn car, pan mae bysus a threnau yn symud i'r un cyfeiriad, ddim yn gwneud synnwyr.
- A dydy prynu nwyddau rhad o Tsieina ar gyfer dathlu'r Nadolig ddim yn teimlo'n iawn, rhywsut.

Dyna pam nad ydw i yn bersonol ddim wedi cael trafferth mawr rhoi'r gorau i hedfan a gyrru car, ac i brynu'r dyfeisiau electronig diweddaraf, a dillad ffasiynol.

Dydy'r pethau yma ddim yn arwain at hapusrwydd pan mae rhywun yn sylweddoli beth ydy'r oblygiadau amgylcheddol.

► Mae tyfu llysiau, ar y llaw arall, yn rhoi llawer o foddhad, ac yn llesol i'n hiechyd meddwl (mae astudiaethau gwyddonol wedi profi hyn).

► Mae cerdded a beicio yn fy nghadw yn heini (ac mae'n gas gen i fynd i'r *gym*!).

► Mae chwilio am nwyddau ail-law yn debyg i fod ar helfa drysor.

► Ac mae mynd ar wyliau yn lleol wedi cyfoethogi fy mywyd.

## FFORDD O FEDDWL — NID DIM OND FFORDD O FYW

Dwi'n credu bod byw mewn ffordd sy'n driw i'n hegwyddorion yn ein rhwystro rhag colli gobaith.

Ond dyma'r broblem sylfaenol: os ydan ni am ddiogelu dyfodol ein plant, rhaid i *bawb* newid eu meddylfryd a'u ffordd o fyw. Dydy ailgylchu ddim yn ddigon: rhaid darbwyllo ein cymdogion i wneud yr un fath. Dydy osgoi hedfan ddim yn ddigon: rhaid rhoi pwysau ar aelodau seneddol i gynyddu cost teithio mewn awyren.

Yn y bôn, mae diogelu'r amgylchedd yn fater gwleidyddol ac economaidd.



Gan
ANGHARAD PENRHYN JONES

Tra rydan ni'n lleihau gwastraff yn y cartref mae'r corfforaethau aml-wladol yn parhau i reibio adnoddau'r byd a brasgamu ar draws y blaned.

Tra rydan ni'n addasu'r *thermostat* adref mae gorsafoedd pŵer newydd yn codi o'r ddaear fel madarch.

Mae bod yn wyrdd, felly, yn golygu mynd i'r afael a'r broses wleidyddol. Rhaid lobïo, deisebu, llythyru, gorymdeithio, gweithredu'n uniongyrchol – a thorri'r gyfraith, hyd yn oed.

Ac mae dyletswydd ar yr unigolion creadigol yn ein plith i ddefnyddio eu llais, eu celfyddyd, i geisio dylanwadu ar gymdeithas ar lefel ddyfnach.

Wedi'r cwbl, dyma bwnc moesol pwysicaf y ganrif. A gwaetha'r modd, dydy tyfu tomatos jest ddim yn ddigon.

# Poeni wrth orfod cadw ar ei hargymhellion gwyrdd!

**ANGHARAD TOMOS:**
**PARHAD O DUD 5**

gwella ansawdd y tŷ, cael gwared â'r teledu, a gweithredu yn lleol.

Y neges waelodol yw bodloni ar yr hyn sydd gennym, fel nad ydym yn chwenychu cymaint. Fe'i cychwynnais ar Fedi 30 llynedd, Dydd Waldo, ac fe'i gorffennais ar yr un dyddiad flwyddyn yn ddiweddarach. Am hanner nos ar y dyddiad hwnnw, penderfynodd Cynulliad Cymru i godi tâl o bum ceiniog am bob bag plastig a ddefnyddir.

Wrth ysgrifennu'r llyfr, sylweddolais mor wyrdd yw buchedd cenhedlaeth fy rhieni. Does ganddynt fawr i'w ddweud wrth y dadleuon gwyrdd, ond fel rhai ddaru fyw drwy'r Ail Ryfel Byd, mae bod yn ddarbodus a pheidio gwastraffu yn dod yn gwbl naturiol iddynt. Dim ond inni fagu ein plant yn yr un modd, a byddant yn parhau â'r arferion hyn drwy eu bywydau. Fy mab sy'n fy atgoffa y dyddiau hyn i ddiffodd y golau ...

Fydd y llyfr ddim yn mynd yn ddigon pell i weithredwyr digyfaddawd y mudiad gwyrdd. Ond dwi'n gobeithio y bydd yn rhoi rhywfaint o anogaeth i'r rhai sydd eisiau byw yn wyrddach a ddim yn siŵr beth i'w wneud. Cawn weld.

Mae'r wasg wedi gweithio yn galed ar y diwyg i'w wneud yn llyfr lliwgar, atyniadol i'r llygaid sy'n llawn pytiau y gellir pori iddynt nawr ac yn y man.

Yr unig beth sydd yn fy mhoeni rŵan yw y bydd yn rhaid i mi gadw at yr argymhellion rwyf yn eu rhoddi!

► ***Bodlon***, **Angharad Tomos (*Gwasg Gwynedd, 2011)***

Mae anghyfartaledd *[economaidd]* yn gwthio prynwriaeth ar raddfa na all y blaned mo'i chynnal.
*New Economics Foundation*

*'SORI DW I DDIM YN BWYTA PYSGOD'* — ARDDANGOSFA RHYS A JANET DANIEL YN YMATEB I ARGYFWNG Y DDAEAR

# Llun a cherdd sy'n dathlu byd natur — ond rhybudd hefyd

**MAE arddangosfa** Sori, dw i ddim yn bwyta pysgod **yn ffrwyth ein hymateb creadigol i sialens newid hinsawdd ac yn ddathliad o'r byd naturiol sydd wedi creu 'gwreichion' rhyngom o gelf a barddoniaeth.**

Beth bynnag y credwch yw ei achos — gweithgarwch dynol, ewyllys Duw, neu dim ond proses naturiol — mae newid hinsawdd yn digwydd a rhaid i bawb ohonom addasu er mwyn parhau i fyw. Rydym yn gwybod beth y dylem ei wneud ond mor aml yn methu.

Daeth y syniad ar gyfer yr arddangosfa o'n diddordeb yn ymgyrch *Stop Climate Change Chaos* fu'n targedu cynhadledd ryngwladol Copenhagen. Wrth bwyso ar lywodraethau i leihau ar allyriadau carbon, enillodd yr ymgyrch lawer o gyhoeddusrwydd ond, yn anffodus, ni chafwyd cytundeb rhwymedig.

Ar ôl Copenhagen teimlodd llawer o bobl anobaith am ddyfodol y blaned. Tua'r amser yma, buom yn mynychu gweithdai oedd yn seiliedig ar waith Seicoleg-Eco Joanna Macy, amgylchwraig weithgar o'r Amerig. Roedd hyn yn gyfle i ddarganfod sut y gallwn 'alluogi' ein hunain fel unigolion ac ymchwilio i'r cyswllt sydd rhwng yr holl fodau byw a'n perthynas â'r tir.

Yn ddiweddar, gwelsom erthygl yng nghylchgrawn yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol am blant sy'n dioddef o Anhwylder Diffyg Natur. Heddiw, dim ond 10% o blant sy'n treulio amser cyson ynghanol byd natur, yn y coed, yn y goedwig, o gymharu â 40% pan oedden ni'n blant, gan eu hamddifadu o'r lles meddyliol a ddaw o brofiad mor wyrdd. Yng ngwaith dyddiol Janet fel cynghorydd/seicolegydd meddygol mae'n gweld tystiolaeth uniongyrchol o hyn yn y bobl ddaw ati. Rydym yn profi'r manteision gorau trwy fynd allan i ganol natur.


**Yr artist Rhys a'r bardd Janet Daniel yn esbonio cefndir a natur eu harddangosfa ddiweddar yn Oriel yr Eglwys Norwyaidd yng Nghaerdydd**

Nid yw'r cyfan o'r bywyd gwyllt a welir yn ein lluniau a'n barddoniaeth mewn perygl, ac nid newid hinsawdd yw'r unig reswm am leihad niferoedd. Gall cynefinoedd brinhau oherwydd adeiladu ffyrdd, newid dulliau ffermio, llygredd a gwrthdrawiad economaidd dynol.

Felly, pam y teitl, **Sori dwi ddim yn bwyta pysgod**?

Pan oeddem yn byw yn Shetland, buon ni'n lwcus iawn i weld llawer o Wylanwyddau *(Gannets)* ac i'w gwylio nhw'n deifio i'r môr fel awyrennau Spitfire. Roedd hyn mor gyffrous. Yna clywsom am y ddinas o blastig ar wyneb y Môr Tawel. Gwnaeth hyn i ni feddwl am fwyd yr adar yma mewn blynyddoedd i ddod — sef plastig ac nid pysgod, os na wnawn ni rhywbeth ynglŷn ag e.

Ond mae'r farddoniaeth sy'n mynd gyda'r llun yn sôn am y gwrthddweud y mae Janet yn ei theimlo wrth wynebu'r posibilrwydd o golli pysgod fel bwyd.



**Gwylanwyddau'n plymio i ddyfnderoedd y mor ger Ynysoedd y Shetland — un o luniau trawiadol Ieuan Rhys Daniel yn arddangosfa** *Sori, dw i ddim yn bwyta pysgod*

Er mae prif ffocws Rhys yn y gorffennol oedd astudio tirweddau cysegredig — yn arbennig coed hynafol — cafodd ei ysbrydoli am yr arddangosfa yma gan adar, pryfed a byd natur a allent fod mewn perygl oherwydd newid hinsawdd.

Ein safbwynt ni yw y dylwn ddathlu'r byd naturiol bendigedig hwn a gwneud mwy i amddiffyn yr amgylchfyd — neu fydd 'na ddim llawer o fywyd gwyllt ar ôl cyn bo hir. ■

►Gellir ymweld ag arddangosfa *Sori, dw i ddim yn bwyta pysgod* yng Nghanolfan Celfyddydau Pontardawe o Fawrth 28 i Ebrill 20, 2012. Bydd y lansiad yn cynnwys sesiwn meic agored ar gyfer darlleniadau barddoniaeth ar themâu natur a newid hinsawdd. Bydd elw gwerthiant yn mynd at ddwy elusen, sef Awel Aman Tawe a Gardd Gymunedol Ffynnon Taf.

## Ceisio arafu trydan haul?

'OS bydd tueddiad y cwymp *[mewn pris]* yn parhau – ac os rhywbeth mae'n ymddangos ei bod yn cyflymu – mae'n ymddangos ein bod ond ychydig o flynyddoedd o'r pwynt lle bydd trydan o baneli haul yn rhatach na thrydan wedi'i gynhyrchu trwy losgi glo.

'A phe byddem yn gosod y pris iawn ar lo, gan gymryd i ystyriaeth ei gost enfawr o ran iechyd a chostau eraill, mae'n debyg ein bod eisoes wedi pasio'r pwynt naid hwnnw.

'Ond a fydd ein system wleidyddol yn gohirio'r trawsnewidiad ynni sydd nawr o fewn ein cyrraedd?' ***(Paul Krugman, New York Times, Tachwedd 6, 2011)***

►ATEB? Mae Llywodraeth Doriaidd/Rhyddfrydol San Steffan yn bwriadu hanneri'r ffioedd a delir i bobl sy'n cynhyrchu trydan haul.

## Y 'COCKNEY' A'R 'CARDI' YNGHYD

**GANWYD a magwyd Janet yn Llundain a Rhys yn ardal Tregaron. Syrthiodd y 'Cockney' a'r 'Cardi' mewn cariad ar gwrs ffotograffiaeth yn Ysgol Haf y Barri 32 o flynyddoedd yn ôl.** Sori, dw i ddim yn bwyta pysgod **oedd eu hail arddangosfa ar y cyd.**

**Ers 14 mlynedd, bu Janet yn gweithio fel cynghorydd / seicotherapydd a chanolwr teulu. Mae wedi ysgrifennu storiâu byrion, barddoniaeth, drama a llyfr am gyfnod a dreuliodd hi a Rhys yn byw a gweithio yn Ynysoedd y Shetland.**

**Mae Rhys yn athro celf gyda 40 o flynyddoedd o brofiad mewn ysgolion a gyda grwpiau amrywiol yn y gymuned. Mae wedi arddangos ledled Prydain a sawl gwlad arall. Maent yn byw ger Caerdydd.**

*HAF ELGAR YN OLRHAIN HANES BUDDUGOLIAETH MERTHYR v Y LLOSGYDD*

# Trech gwlad na Covanta!




**Ymgyrchwyr Grŵp Gweithredu'r Cymoedd Unedig yn dathlu ar ôl clywed bod cwmni Covanta wedi rhoi'r gorau i'w cynllun i godi llosgydd gwastraff enfawr ar y waun uwch Merthyr Tudful.**

**DDIWEDD Hydref, fe wnaeth cwmni gwastraff Americanaidd Covanta ddatgan yn ddi-rybudd eu bod yn diddymu eu cynllun am losgydd enfawr ar dir comin uwchben Merthyr — dim ond dyddiau cyn i wrandawiadau cyhoeddus gychwyn.**

Wedi bron i ddwy flynedd o waith caled gan Gyfeillion y Ddaear, miloedd o drigolion lleol a dwsinau o grwpiau cymunedol, roedd y bwystfil wedi ei drechu. Roedd yn fuddugoliaeth i synnwyr cyffredin dros gynllun gwallgof.

Byddai wedi golygu llosgi 750,000 tunnell o wastraff, mwy na gwastraff holl dai Cymru mewn ychydig o flynyddoedd. Y bwriad oedd cludo'r gwastraff ar heolydd cwbl anaddas i loriau, ac ar lein rheilffordd sydd eisioes yn llawn, i leoliad ar ben bryn sy'n aml yn dioddef tywydd gwael. Yna — llosgi'r cwbl gan greu lludw gwenwynig, llygredd aer ac allyriadau niweidiol yn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru sydd eisioes yn dioddef iechyd gwael.

Ar ben hynny, ychydig iawn o swyddi byddai'n cael eu creu: mae ailgylchu gwastraff yn cynhyrchu deg gwaith cymaint o gyflogaeth â llosgi.

Dyma'r ffeithiau y cyflwynon ni i gwmni Covanta ac i Gomisiynwyr y Comisiwn



**ROEDD y gynulleidfa ar eu traed yng Nghynhadledd Flynyddol Cyfeillion y Ddaear yn Nottingham i ganmol a diolch i Gordon James (uchod) am ei 40 mlynedd o waith i'r mudiad.**

**Cafwyd parti a chyflwyniad i Gordon yng Nghaerdydd, hefyd, wrth iddo ymddeol fel pennaeth y mudiad yng Nghymru.**

Cynllunio Seilwaith (neu'r IPC fel yr adnabyddir) o'r cychwyn, gan adeiladu dadl gref ar sail cyfreithiol a pholisiau yn erbyn y prosiect.

Ond dydi hynny ddim yn ddigon i ennill brwydr — mae diwydiannau brwnt a chwmniau mawr wedi cael bwrw ymlaen yn y gorffennol er gwaethaf dadleuon cadarn yn eu herbyn.

Felly beth oedd yn wahanol y tro hwn?

Yr hyn ddigwyddodd oedd bod mater cynllunio technegol wedi cael ei droi'n ymgyrch poblogaidd ar lawr gwlad trwy gyfuniad o bwysau gwleidyddol a gweithredu lleol.

## ADRODDIAD GAN HAF ELGAR YMGYRCHYDD CYFEILLION Y DDAEAR

Fe gychwynon ni ar stondin stryd oer ac unig fis Medi cyn diwethaf, yn nifer bach o unigolion dan faner Cyfeillion y Ddaear Merthyr. Yr ymateb cyffredin gan bobl oedd nad oeddynt wedi clywed am y cynllun ond ei fod yn anochel mewn ardal fel eu hardal nhw.

Ond, wedi i bobl glywed y manylion wrth i grwp bychan o ymgyrchwyr fynd o ddrws i ddrws yn rhannu taflenni, fe dyfodd y gwrthwynebiad gan ledu i Gwm Rhymni.

Erbyn i'r cynllun gychwyn cael ei ystyried gan yr IPC fis Ebrill eleni, roedd 10,000 o bobl wedi cofrestru eu diddordeb, a phwyllgorau ymgyrch ym mron pob cymuned yn cydlynnu o dan grŵp ymbarel yr *'United Valleys Action Group'* (UVAG).

Yn wleidyddol, bach iawn o sylw gafodd y cynllun yn y dyddiau cynnar gyda sïon ar led am gyd-weithrediad rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Covanta, a phryderon am gysylltiadau gyda chwmni mwyngloddio Miller Argent. Dim ond o dan bwysau cyhoeddus y dechreuodd cynghorwyr lleol amddiffyn y cymunedau y'u hetholwyd i'w cynrychioli.

Achubwyd ar y cyfle i godi pwnc y llosgydd yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol y llynedd, a chynhaliwyd digwyddiad yn San Steffan i dynnu sylw gwleidyddol ehangach at oblygiadau'r cynllun. Trodd y llanw gwleidyddol yn erbyn y cynllun oherwydd y gwrthwynebiad lleol hwn, gan ei godi'n benderfyniad o bwys cenedlaethol – yn y fantol oedd hawl Cymru i gymryd penderfyniadau yn unol â'i pholisiau hi.

Ar ben yr anfanteision lleol a chymhlethdodau cynllun Covanta, roedd rhaid delio gyda phroses cynllunio'r IPC. Roedd hyn wedi'i gyflwyno gan Ddeddf Cynllunio 2008 gyda'r bwriad o hwyluso pethau i ddatblygwr.

Dadleuon ni fod proses yr IPC yn ei gwneud hi'n anodd i drigolion lleol fynd i'r afael â phrosiectau, gan fod rhaid i bawb gofrestru — ar ffurflen 8 tudalen! — ac yna gweithredu trwy broses ysgrifenedig ac ar-lein. Roedd y cysylltiad rhyngrwyd band-llydan mwyaf cyflym yn gwingo dan faint yr holl ddogfennau. Ac roedd y cyfan yn Saesneg yn unig — tan i ni gwyno a mynnu cael ffurflenni'r IPC yn Gymraeg.

Erbyn mis Medi eleni, roedd dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r IPC bob wythnos i ryw ran o'r cynllun neu'i gilydd. Roedd cyfarfod ymgyrch rhywle bron bob nos – i gydlynnu ymatebion, codi arian, trefnu protestiadau neu ddelio gyda'r wasg.

Y disgwyl oedd y byddai'r broses yn parhau fel hyn tan fis Chwefror, a phawb yn barod i frwydro ymlaen tan y diwedd. Felly, daeth cyhoeddiad Covanta yn ryddhad mawr — ac yn achos dathlu mawr hefyd.

Mae'r cwestiynau'n parhau – pam tynnu allan, pam nawr, pam mynd mor bell â hyn yn y broses? Er nad oedd Covanta'n fodlon cydnabod bod gwrthwynebiad cyhoeddus wedi cyfrannu at eu penderfyniad, roedd yr holl sylw negyddol a chasineb lleol tuag at y cwmni yn sicr yn ffactor. Roedd polisiau gwastraff a chynllunio Llywodraeth Cymru'n sicr yn ffactor arall sy'n ei gwneud hi'n anhebygol y bydd Covanta yn mentro i Gymru eto.

Gobeithio bydd buddugoliaeth Merthyr yn ergyd i geisiadau eraill i godi llosgyddion yng Nghymru — yng Nghasnewydd, Caerdydd, Môn a Glanau Dyfrdwy – gan roi hwb i'r ymgyrchoedd yn eu herbyn a rhybudd i gwmniau eraill sydd am lygru'n cymunedau. ■

# Daear-iadur Y Papur Gwyrdd

**Detholiad mympwyol o weithgareddau cymunedol a chynaladwy ledled Cymru**



## Panto Felinfach

‘DWSTIWCH y dreser, y bydji a'r cwrci, pilwch y tato, a stwffwch y twrci. Odych chi wedi hongian y misylto to? Siapwch lan, mae'n Nadolig. Amser Panto 'to-to'.’ Bydd hwyl ma’s draw eleni eto wrth i Gwmni Actorion Theatr Felinfach gadw at eu traddodiad Panto Nadolig enwog gyda **How-di-dŵ y Choo choo.** Theatr Felinfach, Felinfach, Dyffryn Aeron, fydd y lleoliad, rhwng nos Sadwrn, Rhagfyr 3, a nos Sadwrn, Rhagfyr 10.

► **Tocynnau a gwybodaeth**: Ffôn 01570 470697

## Grŵp Heddwch

CYNHELIR cyfarfod arbennig gan Grŵp Heddwch Conwy ar bnawn Sadwrn, Rhagfyr 3, 2yp, yn Neuadd Eglwys Fethodistaidd Sant Ioan, Stryd Mostyn, Llandudno. *Sgrechiadau Mud — Effaith Arbrofi Awyrennau Di-beilot yng Nghymru* fydd thema’r achlysur. Bydd ffilm a sgyrsiau gan Dave Webb, Cadeirydd CND y DG, a Jill Gough, CND Cymru.

► **Mynediad am ddim.**

## Gŵyl Aberglasne

OES lle brafiach na Gerddi hyfryd Aberglasne ger pentref Llangathen ym mherfeddion Shir Gar i gynnal Ffair Nadolig? Dyna fydd yno ar Sadwrn a Sul, Rhagfyr 3 a 4, gyda phob math o stondinau bwyd, diodydd a chrefftau, corau a chlochyddion a digwyddiadau tymhorol eraill. Gall deiliaid tocynnau tymor fwynhau ar y dydd Gwener blaenorol hefyd.

► **Gwybodaeth:** Tâl mynediad arferol. Ffôn 01558 668998, www.aberglasney.org.

## Coed y Brenin

Y LLE brafiaf? Bydd gan bobl ardal Dolgellau ateb parod, sef — Canolfan Ymwelwyr Coed y Brenin yng Nganllwyd. Bydd Marchnad Nadolig yn cael ei chynnal yno ar ddydd Sul, Rhagfyr 4, o 10yb i 3yp, gydag amrywiaeth o stondinau crefftau a bwydydd lleol. Ar ben hynny, mae Rotary Mawddach wedi trefnu i Sion Corn alw draw.

► **Gwybodaeth:** Ffôn 01341 440747. Mynediad am ddim.

## Hwyl yn Erddig

HEN blasdy hyfryd Erddig ger Wrecsam fydd y lleoliad am rai o ‘farchnadoedd Nadolig gorau gogledd Cymru’ ar dri phenwythnos cyn y Nadolig – sef Sadwrn a Sul, Rhagfyr 3 / 4, 10 /11 a 17 / 18. Bydd 50 o gabannau pren yno a stondinau’n gwerthu amrywiaeth o anrhegion, bwyd-ydd a diodydd lleol ynghyd ag addurniadau Nadolig. Caiff plant gyfle i gwrdd â Sion Corn.

► **Gwybodaeth:** Mynediad £1 am oedolion, plant am ddim ond £5 i gwrdd â Sion Corn, erddig@nationaltrust.org.uk, ffôn 01978 355314


**HYSBYSEBWCH YN Y PAPUR GWYRDD**

**Am *Wybodaeth a Chostau Hysbysebu yn* Y Papur Gwyrdd, ebostiwch: ypapurgwyrdd1@btinternet.com, neu ffoniwch 01792 798162. Cysylltwch erbyn Ionawr 2 ar gyfer rhifyn Chwefror / Mawrth 2012.**


**CROESO I’CH SYNIADAU AR GYFER Y PAPUR GWYRDD**

**► Croesawn erthyglau, lluniau, eitemau newyddion, hysbys digwyddiadau a syniadau i’r** Papur Gwyrdd **— erbyn Ionawr 2 os ar gyfer rhifyn Chwefror / Mawrth 2012. Ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com. Ffôn: 01792 798162. Cyfeiriad: 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX.**

## Bwyd Araf

BYDD pobl mewn 120 o wledydd yn cynnal 1150 o ddigwyddiadau i ddathlu Dydd Terra Madre ar Sadwrn, Rhagfyr 10. Ar y diwrnod hwnnw, bydd hyrwyddwyr mudiad byd-eang Bwyd Araf yn dod ynghyd i gynnal amrywiaeth o achlysuron yn annog bwyd da, lleol, i bawb. Y nod yw cryfhau cymunedau trwy weithgareddau cymunedol yn hytrach na rhai torfol / corfforaethol.

► **Gwybodaeth:** http://www.slowfood.com/terramadreday/

## Gardd Fotaneg

■ BYDD Gŵyl Fwyd a Chrefftau’r Nadolig yn cael ei chynnal yn Nhŷ Gwydr Mawr yr Ardd Fotaneg Genedlaethol yn Llanarthne, Shir Gar, ar Sadwrn a Sul, Rhagfyr 10 ac 11, gyda sioe *Ble mae Santa?* — gyda Sion Corn a’r ellyllon.

■ Ar nos Iau, Rhagfyr 15, cynhelir *Carolau yn yr Ardd* rhwng 7 a 8.30. Bydd yno Gôr Dyffryn Tywi, Band Arian Crwbin a Dawnswyr Bopeth.

►**Gwybodaeth:** Angen archebu lle ar gyfer *Sioe Sion Corn*, £2 y person — ffôn 01558 667149 www.gardenofwales.org.uk

## Sgwrs gan Iolo

CYNHELIR *Noson gyda Iolo Williams* yng Nghanolfan Bywyd Gwyllt Cymru yng Nghilgerran ger tref Aberteifi, Ceredigion, ar nos Lun, Rhagfyr 12, am 7.30. Cewch gyfle i gwrdd â’r adarwr enwog. Bydd lluniaeth buffet ar gael yn y pris mynediad.

►**Gwybodaeth:** ffoniwch 01239 621600. Mynediad: Oedolion £9.50; plant £5.

## Bryngarw

MAE Tŷ a Pharc Gwledig Bryngarw yn drysor cudd ar lannau afon Garw i’r gogledd o Ben-y-bont ar Ogwr. Achlysur delfrydol i ymweld ag e fydd y penwythnos Nadolig Fictoraidd a gynhelir yno ar Sadwrn a Sul, Rhagfyr 17 / 18, rhwng 10yb a 5yp. Bydd pob math o bethau tymhorol ar gyfer pawb yn y lleoliad prydferth hwn – llunia-eth, stondinau, ffair draddo-diadol. Carolau am 7.30 ar y nos Sul.

►**Gwybodaeth:** Mynediad am ddim. Ffoniwch 01656 729009 neu www.bryngarwhouse.co.uk

## Clecs a Chnecs

BYDD Theatr Mwldan, Aberteifi, yn atsain â chwerthin, a mwy, wrth i Gwmni Drama Mochyn Du berfformio *Clecs, Cnecs a Camocs Ceibwr* gan Nia George ar bnawn a nos Sadwrn, Ionawr 7, am 3yp a 7yh. Eleni mae criw Mochyn Du yn dathlu 20 ers ei sefydlu.

►**Gwybodaeth:** Mynediad, £8, £5. Swyddfa Docynnau, 01239 621200

## Galw’r beirdd

MAE menter ynni adnew-yddol Awel Aman Tawe wedi cyhoeddi eu cystad-leuaeth farddoniaeth flynyddol.

Gwahoddir ceisiadau gan oedolion a phlant, yn Gymraeg neu Saesneg, ar bwnc Newid Hinsawdd. Cynigir gwobr o £500 i’r oedolion buddugol.

Ceisiadau at Awel Aman Tawe, 76-78 Heol Gwilym Cwmllynfell, Aber-tawe SA9 2GN erbyn Mawrth 31, 2012.

►Ffoniwch 01639 830870 am fwy o wybodaeth.

**Gwefan Y PAPUR GWYRDD www.ypapurgwyrdd.com *HEFYD AR FACEBOOK***

# Y byd a'r aelwyd

**Golwg 'cartrefol' ar yr ymgyrch 'global'**

## Canu'n iach i'r afalau a'r crymbl ...

ROEDD yn dda iawn gennym glywed bod cwmni archfarchnad Waitrose wedi dechrau gwerthu afalau sydd ddim yn sgleiniog nac yn 'berffaith'. Caiff eu cwsmeriaid y dewis, bellach, i brynu afalau sydd â siap 'od' neu sydd ag ambell i friw a chraith arnynt — ond sydd â blas cystal â'r rhai difrycheulyd. Ac maent yn rhatach. Llongyfarchiadau i Waitrose am droi nôl ychydig ar ein gwastraffu mawr.

Llun o afalau naturiol, 'amherffaith', sydd i'w gweld gyda'r golofn hon. Ond nid o unrhyw archfarchnad. Afalau ydyn nhw oedd wedi cwympo i'n gardd ni o ardd drws nesaf, a'n cymdogion caredig, ers blynyddoedd, yn hapus i ni wneud â nhw fel y mynnwn.

Erbyn i chi gael **Y Papur Gwyrdd** hwn, byddant wedi'u bwyta fel crymbl hynod flasus.

Ond, mae tro trist i'r stori: mae'r hen goeden afalau hyfryd, ffrwythlon, ond mawreddog, fu'n doreithiog ei chynaeafau, bellach wedi'i dymchwel, yn llwyr. Cafwyd un bore stwrllyd o lifio peirianyddol ffyrnig, a dyna ni.

Rydym yn diolch am bleserau'r gorffennol: am flodau, ffrwyth, coginio, a bwyta iachus a lleol. Rydym hefyd yn addo bodyn 'stiwardiaid' da i'r ddwy goeden afalau a blannwyd gennym ni ein hunain yn ddiweddar, fel 'tawn ni wedi synhwyro beth oedd ar ddigwydd.





Gofalwn amdanynt a'u hyfforddi a'u tocio, gan edrych ymlaen at Cox's Orange Pippins melys y dyfodol os llwyddwn i gydweithio'n ddoeth a charedig â nhw.

A dweud y gwir, mae ein gardd ni'n oleuach o lawer o ganlyniad i'r chwalfa. A bellach, ein coed bedw, maple a damson ni sy'n cynnig lloches a lluniaeth i adar y to, y titw, y ji-binc, y mwyeilch, y piod a'r jac-y-do (drygionus), fel y gwnaiff ein coed afalau, gobeithio, wedi iddynt dyfu tipyn.

## ... Ond croeso i'r cwrw

RYDYN ni o hyd yn falch i ddod ar draws pobl a sefydliadau sy'n rhoi hwb i bethau lleol ar draul y di-liw, di-gymuned, corfforaethol. A chawsom brofiad oedd wedi'n hysbrydoli'n lân yn hynny o beth yn ddiweddar.

Digwyddiad lleol dros ben oedd yr achlysur — sef gornest rygbi rhwng y Gweilch a'r Scarlets yma yn Abertawe. Mae gennym ffrindiau sy'n gefnogwyr pybyr i'r Scarlets (a phwy ohonynt sydd ddim yn bybyr, a bod yn ofalus wrth ddewis yr ansoddair?) a daethon nhw atom i gyd-wylio'r ymrafael yn Stadiwm y Liberty.

Na, peidiwch ag ofni, nid trafodaeth rygbi sydd i ddilyn. Gem ddifflach, a di-gais ydoedd. Doedd dim i achosi straen i'r cyfeillgarwch rhyngom. Yr hyn sydd gennym yw canlyniad ein penderfyniad i wneud dydd ohoni gan fynd lan i Gwm Tawe Uchaf i gael pryd o fwyd cyn y gêm.

Aethom i dŷ tafarn yr Ancient Briton rhwng pentrefi Ynyswen a Phen-y-cae. Doedden ni ddim wedi bod yno o'r blaen, er clywed am eu cyfraniad cymunedol gwych wrth gynnal Gŵyl Glyndŵr flynyddol.

A dyna brofiad pleserus gawsom. Wrth gerdded i mewn, yn ymestyn o'n blaen roedd bar hyfryd gyda dim llai nag 13 o bympiau cwrw traddodiadol arno. Roedd dewisiad o 6 cwrw go iawn a 2 seidr go iawn ar gael.

Daeth y rheolwr, Hywel Roberts, draw atom yn Gymraeg i gyd a chawsom flasu chwerw **Ffarwel Haf** o fragdy Kite yng Ngorslas a **Croeso** gan fragdy Otley o Bontypridd. A'nplesio'n fawr. Ond, yn fuan, roedd y gêm rygbi'n galw!

Llongyfarchiadau i'r Ancient Briton am gefnogi cwrw go iawn gyda chymaint o frwdfrydedd (roedd y stwff torfol, digymeriad, hefyd ar gael ond mewn llecyn ar wahân).

Dim syndod eu bod wedi ennill teitl Tafarn y Flwyddyn gan CAMRA Cymru eleni. Awn yno eto, i ddathlu'r diwylliant lleol.

Hwyl am y tro,

***Hywel a Charlotte***

## GRYM Y TONNAU A HUD Y LLYNNOEDD



LLUN syfrdanol Barri Elford o don enfawr yn taro yn erbyn pier Porthcawl. Dyma'r ddelwedd gofiadwy enillodd cystadleuaeth ffoto Cadwyn Amgylcheddol Cymru ar bwnc Grym Tonnau. Mae'r corff ynghanol Ymgyrch Forol i sicrhau camau pendant gan Lywodraeth Cymru i warchod ein moroedd a'n glannau ar gyfer y dyfodol trwy weithredu mesurau Deddf y Môr a basiwyd dwy flynedd yn ôl. Mae'r ymgyrch yn cynnwys cynrychiolwyr o RSPB Cymru, Ymddiriedolaeth Natur Cymru, WWF Cymru, y Gymdeithas Cadwraeth Forol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. http://www.waleslink.org/cy



LLYN Ogwen — un o luniau gwefreiddiol y ffotograffydd Geraint Thomas o Waunfawr yn ei gyfrol newydd *Cyfrinachau Llynnoedd Eryri.* Meddai Geraint am y profiad o ymweld a 140 llyn gan dynnu lluniau a chasglu hanesion, "Hawdd ydy cymryd Eryri yn ganiataol ... Dyma'r llynnoedd sydd wedi cyfrannu cymaint i'n bywydau dros y canrifoedd." Mae'r cyhoeddiad hardd yn nodi 60 blynedd ers creu Parc Cenedlaethol Eryri. Dywed Caerwyn Roberts, cadeirydd y parc, fod y llyfr yn "gampwaith cyfoethog o ddelwedd a gair yn Gymraeg a Saesneg." Cyhoeddir gan *Wasg y Lolfa, £14.95.* http://www.ylolfa.com/

# Mynnwch gwsg
# ym mynwes natur






## ... gan gynnwys
## i'r babi

# Matresi Organig
# gan Abaca

Abaca, Uned 1,
Parc Busnes Tŷ Croes,
Rhydaman,
Sir Gaerfyrddin SA18 3RZ

**01269 598491**
**info@abacaorganic.co.uk**

